



**CYNNIG I WELLA DARPARIAETH
DOSBARTHIAU CYNNAL DYSGU
CYFRWNG CYMRAEG YN RHONDDA
CYNON TAF**

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Chwefror 2022

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig: gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf

1. Pwrpas yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng 10 Ionawr 2022 a 21 Chwefror 2022 gyda'r holl randdeiliaid a'r partïon â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd: www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadYsgolion

- Cyrff Llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid a staff Ysgol Garth Olwg
- Cyrff Llywodraethu, rhieni/cynhalwyr disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd yn nalgylch yr ysgol uwchradd arfaethedig a fydd yn cynnal y Dosbarth Cynnal Dysgu
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Undebau Llafur Athrawon a Staff Cymorth
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortïwm Canolbarth y De
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Estyn
- Aelodau Seneddol etholaethau Cwm Rhondda, Pontypridd a Chwm Cynon
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- SNAP Cymru
- Menter Iaith

3. Ynglŷn â beth roedden ni wedi ymgynghori?

Roedd yr ymgynghoriad ar y cynnig i wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 ag Anghenion Dysgu Ychwanegol Sylweddol ym mis Medi 2022.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig yma, ynghyd â manylion yn ei gylch, wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu i'r holl randdeiliaid yn y rhestr ym Mhwynt 2 (drosodd).

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copïau electronig eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn adran 2. Hefyd, cafodd y dogfennau ymgynghori eu rhannu ar dudalen we Ymgynghoriadau RhCT lle'r oedd dolen at ffurflen ymgynghori electronig. Cafodd y cyfarfodydd canlynol eu cynnal:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfadran	Amser	Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Garth Olwg	Y Corff Llywodraethu a'r staff	3.30pm–4.30pm	27 Ionawr 2022	Rhithwir
Ysgol Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	9.30am–10.30am	27 Ionawr 2022	Ysgol Garth Olwg

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 cafodd y cyfarfod gyda'r Corff Llywodraethu a staff Ysgol Garth Olwg ei gynnal ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd yma eu cymryd ac maen nhw wedi'u hatodi yn Atodiad 1a ac 1b. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

5. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r materion a gafodd eu codi yn y cyfarfodydd sydd wedi'u crybwyll uchod wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd wedi'u hatodi yn Atodiadau 1a ac 1b. Yn ogystal â hyn, daeth 31 o ymatebion ysgrifenedig i law trwy'r arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg yma ar agor trwy gydol y cam ymgynghori. O'r 31 o ymatebion ar-lein, roedd 27 (87.1%) o blaid y cynnig, roedd 2 (6.45%) yn erbyn, ac roedd 2 (6.45%) yn ansicr. Yn ogystal â hyn, daeth 1 llythyr ffurfiol i law a oedd o blaid y cynnig. Wrth ystyried pob un o'r 32 o ymatebion, mae'r ganran o blaid yn cyfateb i 87.5%. Cyfeiriwch at Atodiad 2 am fanylion yr ymatebion a ddaeth i law.

Yn unol â'r Cod, mae crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law yn y tabl isod. Cafodd ymateb ei ddarparu i unrhyw faterion a oedd yn codi o'r ymatebion yma, gan egluro'r rhesymau i gefnogi'r cynnig, ble y bo hynny'n addas.

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at yr ymateb hynod gadarnhaol i'r cynnig fel y cafodd ei gyflwyno yn yr ymgynghoriad.

Tabl 1: Crynodeb o ymatebion i'r holiadur ar-lein ac ymatebion ffurfiol

Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad – 32			
Ysgol	Cytuno â'r cynnig	Anghytuno â'r cynnig	Ansicr am y cynnig
Ysgol Garth Olwg	28	2	2

Mae'n braf nodi bod rhanddeiliaid yn ystyried y cynnig yn gadarnhaol i wella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn RhCT.

6. Crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol

Daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg o'r ymgynghoriad:

Tabl 2: Themâu Allweddol

Cwestiwn	Sylwadau/Materion (sylwadau yn yr iaith wreiddiol)	Eglurhad os oes angen
C1 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?	This is very much needed. However, we should not forget that there are many Primary aged pupils also in need of this provision through the medium of Welsh	Mae'n amlwg o'r ymatebion bod ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei groesawu. Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y pryder ynghylch y diffyg presennol o ran Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd. Yn y cyfamser, bydd y cyfnod cynradd yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth deithiol arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf ALNET 2018") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddatblygu system ADY ddwyieithog. Mae'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn gweithio tuag at y gofyniad yma.
	There is no current base or support in RCT for Welsh medium education and the new ALNET Act means the authority needs to act and provide where possible. Will increase specialist teachers in the school. Teaches mainstream children about celebrating difference.	Bydd y cynnig yma'n mynd i'r afael â'r angen yma.

Cwestiwn	Sylwadau/Materion (sylwadau yn yr iaith wreiddiol)	Eglurhad os oes angen
C2. Nodwch unrhyw ddewisiadau amgen, neu sylwadau neu ystyriaethau eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried.	The siting of the support in Garth Olwg is a positive proposal, building on the existing support provision and making the most of its central role in the community and new 3-19 status.	Mae'r ysgol arfaethedig wedi'i dewis oherwydd ei harferion cynhwysol, capasiti ychwanegol a'i lleoliad daearyddol.
	Why does it have to be within a mainstream school? Surely a stand-alone unit would be more beneficial to all.	Mae gyda RCT 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu yn y Fwrdeistref Sirol ac mae pob un ohonyn nhw wedi'u lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Mae cael y ddarpariaeth arbenigol mewn lleoliadau prif ffrwd yn allweddol i ethos addysg gynhwysol. Bydd gyda disgyblion gynlluniau dysgu pwrpasol sy'n eu cynnwys yn rhan o wersi/gweithgareddau prif ffrwd fel sy'n briodol i'w hanghenion unigol.
	1. Ble mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant oed cynradd? 2. Beth yn benodol fydd anawsterau'r plant? O brofiad, mae anghenion yn amrywio'n fawr felly pa anghenion y bydd y dosbarth cynnal dysgu'n canolbwyntio arnynt? 3. Os oes 44 dosbarth cynnal dysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal ag ysgolion arbennig ac unedau, sut gellir cyfiawnhau dim ond lle ar gyfer 14 disgybl mewn 1 dosbarth a dim byd o gwbl ar gyfer plant cynradd?	Mae'r pryder wedi'i nodi. Mae Llywodraeth Cymru a Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ei Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd a gweithio'n rhagweithiol tuag at ddatblygu system ADY gwbl ddwyieithog dros amser. Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn rhoi cymorth i ddisgyblion sydd ag ADY sylweddol. Caiff meini prawf lleoliad eu llunio a'u cytuno wrth ymgynghori â'r ysgol. Dyma gydnabod y gall fod angen mwy nag 1 ardal ystafell ddosbarth ar y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer ymyriadau i helpu i gefnogi pob dysgwr, a chymorth ac arbenigedd digonol i gefnogi disgyblion ag ystod o anghenion. Bydd anghenion y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth yn cael eu monitro'n agos gan yr Awdurdod Lleol ar y cyd â'r ysgol.

Cwestiwn	Sylwadau/Materion (sylwadau yn yr iaith wreiddiol)	Eglurhad os oes angen
C3. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i edrych ar sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod gyda nhw nodweddion penodol. Sut byddai cynigion y Cyngor yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol?: a. Rhyw b. Oed c. Ethnigrwydd ch. Anabledd d. Rhywioldeb dd. Crefydd neu Gred e. Hunaniaeth rywedd f. Statws perthynas ff. Beichiogrwydd g. Iaith o ddewis	Iaith o ddewis, rhaid rhoi dewis i pawb. Anabledd - gall plant gyda anabledd dysgu colli mas ar opportunities, os nad oes cyfle iddyn nhw dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn ffafrio i lefel cydraddolbed o ran iaith dewisol. Ar hyn o bryd mae hyn yn anghytwys. 2. Oed - mae'r ddarpariaeth dim ond ar gyfer plant oed uwchradd 10. Iaith - er bod y ddarpariaeth yn y Gymraeg, mae angen cydraddoldeb ar blant yr ardal er mwyn cael mynediad i addysg arbenigol o 3-11 oed hefyd.	Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael yn rhannol ag anghydraddoldeb y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau bod pob disgybl sy'n bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer lleoliad arbenigol mewn Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael mynediad i Ddosbarth Cynnal Dysgu arbenigol cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, fel sydd wedi'i nodi uchod, bydd pob disgybl oed cynradd yn parhau i dderbyn cymorth gan ein carfan deithiol cyfrwng Cymraeg ar yr adeg yma. Caiff hyn ei adolygu gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn unol â'r ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf ALNET 2018 i adolygu digonolrwydd eu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Fel yr uchod.
C4. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio (yn gadarnhaol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?	The opportunity here is to considerably improve Welsh language provision not only for learners with ALN but support those who also come from non-Welsh-speaking homes who perhaps have had limited support over the difficulties of the pandemic.	Mae ysgolion wedi derbyn cyllid grant i fynd i'r afael ag effaith andwyol y pandemig ar ddeilliannau dysgwyr.

Cwestiwn	Sylwadau/Materion (sylwadau yn yr iaith wreiddiol)	Eglurhad os oes angen
	Due to there being no ALN classes currently through the medium of Welsh this has resulted in a failing for many children. At the end of the day we live in Wales why are there no Welsh medium ALN classes?	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod angen gwella darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY a bydd y cynnig yma'n rhoi gwell darpariaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ynglŷn â datblygu darpariaeth arbenigol ddwyieithog yn y dyfodol.
C5. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn LLAI ffafriol na'r Saesneg?	This will have a negative impact on the use of the Welsh language within the school	Bydd yn ofynnol i bob disgybl sy'n gymwys ar gyfer lleoliad yn y Dosbarth Cynnal Dysgu siarad Cymraeg a chael mynediad i'w haddysg trwy'r cyfrwng yma. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y ddarpariaeth yma'n cael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

7. Ymateb Estyn

Cyfeiriwch at Atodiad 3 sy'n manylu ar ymatebion Estyn i'r cynnig gan Rongda Cynon Taf i wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fis Medi 2022. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, rhaid cyflwyno'r ymatebion yn llawn.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i adborth Estyn ar y Cynigion

Mae RhCT yn cydnabod yr ymateb gan Estyn ac mae'n falch o nodi ei fod wedi cytuno na fydd effaith andwyol ar safonau addysg os bydd y cynnig i wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei roi ar waith. Mae ymateb Estyn hefyd yn cydnabod bod y cynnig yn darparu opsiwn arall ar gyfer addysgu nifer fach o ddisgyblion ag ADY sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ddim ar gael ar hyn o bryd yn RhCT.

Mae RhCT yn falch bod y cynnig yn unol â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Neddf ALNET 2018 ar gyfer llwybr parhaus o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, ac sydd hefyd yn darparu cymorth dwyieithog.

Mae'r tabl isod yn ymateb yn fanylach i'r prif sylwadau a gafodd eu codi gan Estyn:

Tabl 3: Adborth Estyn

Sylwadau sy'n rhan o Adborth Estyn	Ymateb RhCT
Pupils who are likely to use the new LSC must currently be taught either in mainstream Welsh	Ydy, mae'r sylw yma'n gywir. Mae disgyblion ADY cyfrwng Cymraeg yn cael

Sylwadau sy'n rhan o Adborth Estyn	Ymateb RhCT
medium classes or in English medium LSCs elsewhere.	eu cefnogi ar hyn o bryd gan garfan deithiol arbenigol yn eu lleoliad prif ffrwd.
Three reasons are given why Ysgol Garth Olwg has been selected for the new LSC: its inclusive practice, its success in educating pupils with additional learning needs and its current surplus capacity. However, no evidence is given to support the first two assertions	Yn y gorffennol mae darpariaeth ADY wedi bod yn effeithiol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi mewn adroddiadau arolygu blaenorol Estyn. Mae'r ysgol yn parhau i weithio'n effeithiol gydag ystod o Wasanaethau ADY mewn perthynas â darparu darpariaeth Dysgu Ychwanegol cynhwysol i'w dysgwyr ag ADY.
There is no comment in the proposal about the possibility of more parents wanting to educate their children through the medium of Welsh and whether this might impact on the current and future surplus capacity at Ysgol Garth Olwg.	Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu ei ddarpariaeth arbenigol yn barhaus. Mae Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau ein bod yn darparu darpariaeth ddwyieithog i ddysgwyr RhCT. Felly, byddwn ni'n monitro'r defnydd o'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn agos. Yn ogystal â hyn, mae ehangu'r ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr yn flaenoriaeth yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.
There are two risks associated with the proposal which aren't considered. Firstly, having a single Welsh medium LSC in the whole of RCT is likely to mean that some pupils attending the new LSC would have to travel significant distances every school day. It is possible that some parents might refuse to allow their children to attend the new LSC if they live too far away from it. Secondly, the employment benefit of having one teacher and two teaching assistants to run the new LSC is mentioned, but not the impact of this on the current peripatetic Welsh medium additional learning needs support being provided in the local authority.	Dyma gydnabod y gallai fod angen i rai disgyblion deithio'n bellach ond bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar ddatblygu darpariaeth arbenigol ddwyieithog ledled RhCT yn y dyfodol. Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â pholisi trafnidiaeth hael yr Awdurdod Lleol o'r cartref i'r ysgol. Bydd y garfan deithiol arbenigol yn parhau i roi cymorth i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY mewn lleoliadau cynradd.
An estimated cost must be available and could have been included and explained within the proposal.	Mae ysgolion uwchradd sy'n cynnal darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael arian gan y Cyngor ar gyfer un athro arbenigol a dau Gynorthwy-ydd Cynnal Dysgu. Mae hyn yn costio tua £112,000 fesul dosbarth. Cafodd cyllid ychwanegol i wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu RhCT ei gymerwadyo yn ystod cynnig blaenorol i'r Cabinet. Oherwydd

Sylwadau sy'n rhan o Adborth Estyn	Ymateb RhCT
	effaith Covid-19, cafodd yr ymgynghoriad hwn ei oedi, gan atgyfeirio cyllid am gyfnod cyfyngedig o 2 flynedd i alluogi Ysgol Garth Olwg i sefydlu darpariaeth Cam 4 yn yr ysgol.
The proposal could have referred to previous inspection reports for the original secondary and primary schools on the site in providing evidence for why Ysgol Garth Olwg is an appropriate school to host the new LSC.	Mae'r sylw wedi'i nodi.
What extent the host school supports the proposal.	Mae'r Corff Llywodraethu, y disgyblion, y rhieni/gwarcheidwaid a'r staff i gyd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y cynnig. Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi bod yn hynod gadarnhaol.

8. Asesiad o'r Ymgynghoriad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae asesiad arall o'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori wedi cael ei gynnal. Rydyn ni wedi ailedrych ar y cynnig ac mae'r materion canlynol wedi'u hailasesu:

- Effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safon yr addysg;
- Yr effaith debygol ar y gymuned; ac
- Effaith debygol ar newid trefniadau teithio

Ar ôl ystyried ymhellach, mae'r cynnig yn dal i gael ei ystyried yn briodol ac o'r herwydd does dim unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig.

9. Casgliad

Ar ôl ystyried yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma, caiff ei ystyried nad oes unrhyw wybodaeth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cyfiawnhau newid y ddogfen ymgynghori ac felly dydy'r wybodaeth ddim wedi newid. O'r herwydd, caiff ei ystyried y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig yma yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion heb unrhyw newidiadau.

Bydd rhoi'r cynllun yma ar waith o fudd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol ledled Rhondda Cynon Taf, gan sicrhau rhagor o gydraddoldeb a mynediad at ddarpariaeth arbenigol.

Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion yn ogystal â gwella deilliannau plant a phobl ifainc yn flaenoriaeth i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Yng ngoleuni Agenda Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn ei ysgolion trwy ymateb yn rhagweithiol i strategaethau cenedlaethol a lleol, megis Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru:

Cymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf a chynllun Ysgolion yr 21^{ain} ganrif cyfredol i gynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg RhCT, mae'n hanfodol gwella'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg cyfredol yn RhCT.

Argymhelliad yr adroddiad yma yw y dylai'r Cabinet ystyried cyhoeddi hysbysiad statudol, gan ymgynghori arno heb unrhyw addasiadau, er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig sydd wedi'i amlinellu.



Achlysur Ymgynghori 2022 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Garth Olwg		
Lleoliad:	Cyfarfod ar-lein ar Microsoft Teams		
Dyddiad:	27.01.20	Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Ceri Jones Lisa Carter
Nifer y rhai a oedd yn bresennol:	41 (37 o staff, 2 aelod o'r Corff Llywodraethu a 2 Swyddog yr Awdurdod Lleol)		
Aelodau o'r Corff Llywodraethu a Staff			
Eglurodd Mr Edwards i'r rheiny a oedd yn bresennol fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda Chyngor yr Ysgol y bore yma a bod y trafodaethau wedi ennyn diddordeb a sylw'r disgyblion a bod y sesiwn yma'n rhan o'r broses ymgynghori ehangach. Cyflwynodd Mr Edwards Swyddogion yr Awdurdod Lleol. Atgoffodd Ceri Jones y rheiny a oedd yn bresennol bod yr ymgynghoriad ar y cynnig wedi'i gychwyn 2 flynedd yn ôl cyn y pandemig. Serch hynny, cafodd ei oedi, a chafodd darpariaeth Cam 4 ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn awr yn dymuno agor darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer 14 o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol. Gan ddefnyddio'r sgript, darparodd Ceri Jones drosolwg o'r cynnig i'r rheiny a oedd yn bresennol, gan egluro'r darpariaethau cyfredol a dyletswyddau statudol newydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf ALNET 2018") gan nodi bod rhaid i'r Awdurdod Lleol weithio'n rhagweithiol yn awr i ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae yna gymorth cyfrwng Cymraeg ar gael eisoes gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant gydag athrawon arbenigol a seicolegwyr addysg a bydd hyn yn parhau, ond mae angen ei wella. Caiff hyn ei weld yn gyfle cyffrous i'r ysgol a'r Awdurdod Lleol, sy'n gobeithio cynyddu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ledled yr Awdurdod Lleol. Cafodd Dosbarth y Bont ei sefydlu'n ddarpariaeth yn yr ysgol (Cam 4). Y gwahaniaeth gyda'r cynnig yw y bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei reoli gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant – ond i raddau helaeth, dyma bartneriaeth gyda'r ysgol. Er enghraifft, bydd Cyngor yr Ysgol yn helpu gyda'r broses benodi. Bydd pob disgybl ledled y Fwrdeistref Sirol yn cael mynediad i'r Dosbarth Cynnal Dysgu ond bydd meini prawf mynediad/gadael. Mae'r cwestiynau a gafodd eu gofyn gan y rheiny a oedd yn bresennol wedi'u crynhoi isod.			

- **Pam nad yw aelodau o Gorff Llywodraethu Ysgol Garth Olwg yn rhan o'r broses benodi?**

Does dim gwrthwynebiad gan yr Awdurdod Lleol i aelodau o'r Corff Llywodraethu fod yn rhan o'r broses benodi. Mae croeso iddyn nhw ymuno â'r broses. Hoffai Cadeirydd y Corff Llywodraethu i'r Corff Llywodraethu gael ei gynnwys.

- **Cafodd pryderon eu mynegi nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg o hyd ar gyfer y plant iau, a hynny er bod yr ysgol yn Ysgol Pob Oed (3-19 oed). Pam fod y cynnig ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 yn unig?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu ei ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn barhaus a gan fod ymyriadau cynnar a dulliau ataliol wedi'u cydnabod yn allweddol, rydyn ni'n ystyried darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i blant iau. Yn y cyfamser bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau gyda'i gymorth teithiol i ddisgyblion cynradd

- **Cafodd pryderon eu mynegi y byddai 2 ddisgybl ag ADY gwahanol iawn yn cael eu lleoli gyda'i gilydd.**

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r pryder gan mai dim ond un Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd. Serch hynny, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio ar y cyd â darpariaethau arbenigol cyfrwng Cymraeg eraill sydd ar hyn o bryd yn cefnogi disgyblion ag ystod o ADY, gan adolygu eu modelau cyflawni. Bydd yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus wrth i'r Dosbarth Cynnal Dysgu gael ei sefydlu. Yn ein hysgolion arbennig mae gyda ni ystod eang o anghenion sy'n derbyn cymorth. Bydd trefniadaeth y dosbarth a chymorth gan staff yn allweddol i lwyddiant – yn ogystal ag amserlennu – i alluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwersi/gweithgareddau a darpariaeth brif ffrwd. Bydd sgiliau staff yn ffactor pwysig i sicrhau bod modd i'r Dosbarth Cynnal Dysgu gefnogi ystod o anghenion.

- **Os yw disgybl yn defnyddio'r Dosbarth Cynnal Dysgu o ysgol uwchradd arall yn RhCT, a yw'n mynd yn ôl i'w ysgol wreiddiol ar gyfer yr elfen integreiddio i'r prif ffrwd?**

Na, bydd y disgybl yn mynychu Ysgol Garth Olwg yn llawn amser fel ei fod yn dod yn rhan o gymuned yr ysgol

- **Mae Dosbarth y Bont yn derbyn cyllid cyfatebol gan yr Awdurdod Lleol. Beth sy'n digwydd os nad yw'r disgyblion sydd eisoes yn defnyddio'r ddarpariaeth honno yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd?**

Wrth gyflwyno cynnig ar gyfer cyllid Cam 4, maen prawf allweddol ar gyfer cael gafael ar y cyllid cyfatebol oedd y byddai'r ysgol yn cynnal y model ar ddiwedd y cyfnod ariannu. Byddai raid i'r ysgol barhau i gefnogi'r disgyblion hynny sydd ddim yn bodloni meini prawf y Dosbarth Cynnal Dysgu.

Mae cyllid cyfatebol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Dosbarth y Bont yn ddibynnol ar gyfyngiad amser, felly yr ysgol sy'n gyfrifol am gynnal y ddarpariaeth. Gallai'r ysgol wneud yr un peth ag ysgol Ton 1 arall a pharhau â'r ddarpariaeth Cam 4 gan ddefnyddio ei chyllideb ei hun.

- **A fyddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried dull graddol i ganiatáu i'r ysgol barhau i gefnogi Dosbarth y Bont? Os nad yw'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn llawn, a fyddai modd i ddisgybl Dosbarth y Bont ddefnyddio darpariaeth y Dosbarth Cynnal Dysgu?**

Byddai angen trafodaethau pellach rhwng yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Byddai, mae'n bosibl y byddai modd i ddisgyblion ddefnyddio'r ddarpariaeth os nad yw'r dosbarth yn llawn ond

byddai'r disgyblion hynny sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu blaenoriaethu dros ddisgyblion Dosbarth y Bont.

- **A fyddai staff yr ysgol yn cael hyfforddiant ychwanegol er mwyn cefnogi disgyblion ag ADY?**

Mae'r ysgolion sy'n cynnal Dosbarthiadau Cynnal Dysgu bob amser yn rhoi adborth hynod gadarnhaol ynghylch y cydweithio da ac arwyddocaol rhwng y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a staff y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn sicrhau y bydd hyfforddiant ar gael i helpu staff, a hynny drwy raglen ddysgu broffesiynol.

- **A oes gyda chi unrhyw bryderon ynghylch recriwtio staff ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu?**

Bydd yn her i ni. Ar adegau rydyn ni wedi cael anhawster i benodi swyddi arbenigol cyfrwng Saesneg. Serch hynny, bydd y swyddi'n cael eu hysbysebu'n allanol ac yn y Times Education Supplement.

- **Beth fydd yn digwydd os does dim staff ar gael i helpu gyda'r Dosbarth Cynnal Dysgu?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn talu am staff cyflenwi o ddiwrnod 1 ac mae gyda'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant arbenigwyr sy'n gallu rhoi cymorth i'r Dosbarth. Mae gyda phob Dosbarth Gydlynnydd AAA penodedig a fydd yn darparu cymorth strategol. Rydyn ni deall y gallai fod problemau, ond byddwn ni'n gwneud ein gorau i ddarparu cymorth ychwanegol

- **Rwy'n poeni am gymhareb nifer y staff i ddisgyblion i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu.**

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol i ddiwallu'r ystod o angen yn y Dosbarth Cynnal Dysgu. Caiff hyn ei fonitro'n agos. Mae modd i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ddarparu cymorth ychwanegol i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu yn y tymor byr. Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Panel ADY a'u hadolygu bob tymor. Byddai sefyllfa hirdymor yn cael ei hadolygu i sicrhau bod digon o staff ar gael

- **Rwy'n poeni am gyrhaeddiad disgyblion a'r effaith ar ddysgwyr eraill pan fydd disgyblion ag ADY yn cael mynediad i leoliadau prif ffrwd.**

Yn y gorffennol, does dim pryderon wedi'u codi gan ysgolion eraill sy'n cynnal Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Mae integreiddio â'r brif ffrwd yn rhan o ethos cynhwysol yr ysgol. Bydd athro/athrawes y Dosbarth Cynnal Dysgu yn gallu helpu gyda dysgu'r disgyblion. Wrth baratoi at sefydlu ac agor y Dosbarth Cynnal Dysgu, bydd y Pennaeth yn ceisio barn penaethiaid eraill am yr heriau y maen nhw wedi'u hwynebu, a'r hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus iddyn nhw. Bydd yr Uwch Garfan Rheoli yn dysgu o hyn ac yn datblygu arferion i'r ysgol.



Achlysur Ymgynghori 2022 – Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Garth Olwg		
Lleoliad:	Ysgol Garth Olwg – Ffreutur yr ysgol		
Dyddiad:	27.01.22	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	2
Nifer y disgyblion:	31		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Ceri Jones Lisa Carter		

Cyngor yr Ysgol

Roedd Cyngor yr Ysgol yn cynnwys nifer o ddisgyblion blynyddoedd 7-13 a oedd yn cynrychioli trawstoriad o ddisgyblion sy'n mynychu'r lleoliad (3-19 oed).

Darparodd Ceri Jones gefndir y cynnig, gan egluro pam fod yr Awdurdod Lleol yn ceisio sefydlu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7-11 ag anghenion dysgu sylweddol o 1 Medi 2022 yn Ysgol Garth Olwg.

Darparodd Mr Edwards gyd-destun y cynnig o safbwynt yr ysgol, gan egluro pam pam fod yr ysgol yn cefnogi lleoli'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn yr ysgol. Cafodd Cyngor yr Ysgol ei annog i ofyn cwestiynau. Mae crynodeb o'r cwestiynau a gafodd eu gofyn a'r ymatebion fel a ganlyn:

- Pa fath o ADY fydd yn derbyn cymorth yn y Dosbarth?**

Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn rhoi cymorth i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol – felly bydd cymysgedd o ADY. Gan mai dyma fydd y ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg cyntaf ar gyfer disgyblion ag ADY yn RhCT, byddwn ni'n edrych ar fodolau eraill i geisio cymorth ac arbenigedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes mewn Awdurdodau Lleol cyfagos. Rydyn ni'n deall y bydd cymysgu disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig ac anawsterau ymddygiadol er enghraifft yn her, ond byddwn ni'n dysgu o ddarpariaethau eraill, yn adolygu ein harferion ac yn mireinio'r ddarpariaeth wrth iddi sefydlu'i hun.

- **Ble fydd y Dosbarth yn cael ei leoli yn yr adeilad?**

Bydd lle yn y Dosbarth i 14 o ddisgyblion a 3 aelod o staff. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol i edrych ar leoliad priodol yn yr adeilad. Mae'n bwysig bod y Dosbarth ddim ar gyrion yr ysgol. Rydyn ni am ddatblygu dull cynhwysol. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn teimlo eu bod nhw'n rhan o ethos yr ysgol a'u bod nhw'n cael eu cynnwys yn rhan ohoni. Os oes angen addasiadau ar yr ystafell ddosbarth bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio ar y cyd â'r ysgol ac yn talu amdany'n nhw.

Ychwanegodd Mr Edwards na fydd y Dosbarth mewn adeilad ar waelod y cae. Bydd yn cael ei gynnwys yn rhan o gymuned yr ysgol.

- **A fydd disgyblion y Dosbarth mewn dosbarth cofrestru gwahanol?**

Byddai gyda nhw eu trefniadau dosbarth eu hunain. Serch hynny, mae'r arferion yma'n amrywio o ysgol i ysgol. Mae'n debygol y byddan nhw yn eu dosbarth eu hunain i ddechrau'r diwrnod a chael cyswllt â'r staff. Bydd modd adolygu arferion ar y cyd â'r ysgol yn rhan o broses ymsefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu.

Eglurodd Mr Edwards fod gyda'r ysgol dros 1,250 o ddisgyblion ac yn anffodus dydy pawb ddim yn dod i mewn i'r ysgol yn teimlo'n iawn. Mae rhai yn ofidus ac yn grac, ac efallai bydd rhai o'r farn eu bod nhw ddim yn gallu gweithio'n dda y diwrnod hwnnw. Am hanner awr gyntaf y dydd efallai y bydd angen cymorth gan aelodau o staff ar rai disgyblion. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod cymorth wrth law i'w tawelu a'u helpu nhw i ymgartrefu yn amgylchedd yr ysgol. Gallai fod elfen o'r ddau beth i ddisgyblion, hynny yw, diwrnod yn y Dosbarth Cynnal Dysgu a rhai diwrnodau wedi'u hintegreiddio yn y brif ffrwd. Yn bennaf oll, caiff y ddarpariaeth ei harwain gan anghenion yr unigolyn. Bydd hyblygrwydd a phenderfynu ar ba gymorth sy'n gweithio orau i'r unigolyn yn allweddol.

- **A yw'r disgyblion yn eu grŵp blwyddyn eu hunain neu a fyddan nhw'n gymysg ar draws grwpiau blwyddyn?**

Bydd ystod gymysg o oedrannau, o flwyddyn 7 i flwyddyn 11. Bydd niferoedd y disgyblion yn y Dosbarth yn amrywio yn dibynnu ar eu hanghenion a pha ddosbarthiadau prif ffrwd maen nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw. Pan fyddan nhw'n rhan o ddosbarthiadau prif ffrwd, byddan nhw yn eu grŵp blwyddyn.

- **Mae'r ddarpariaeth wedi'i hanelu at flwyddyn 7 i flwyddyn 11. A fyddai modd ehangu hynny i flwyddyn 12 a blwyddyn 13 ac o bosibl blynyddoedd iau?**

Deddfwriaeth newydd – Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf ALNET 2018") yn mynnu bod yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i ddarparu darpariaeth ddwyieithog ar gyfer disgyblion ag ADY rhwng 0 a 25 oed. Bellach mae gyda'r Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i gefnogi ystod ehangach o ddarpariaeth. Rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ei ddarpariaeth ADY yn barhaus a sicrhau ei fod yn gallu cynnal system ddwyieithog. Efallai y bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried ehangu'r ddarpariaeth. Ar hyn o bryd mae ein darpariaeth cyfrwng Saesneg yn rhoi cymorth i hyd at flwyddyn 11 yn unig, ond mae Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r trefniant yma. O edrych ar ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, efallai nad Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yw'r opsiwn gorau o dan y Ddeddf newydd ac mae'n ofynnol i ni ymchwilio i gyfleoedd eraill mewn perthynas ag Addysg Bellach.

Mr Edwards – chi yw ein disgyblion a bydd yr ysgol yn eich cefnogi ac yn eich llywio chi. Bydd cymorth ar gael i ddisgyblion aros yn yr ysgol, os yw'n briodol. Byddai hyn yn dibynnu ar y llwybr dysgu y mae'r disgybl yn ei ddewis

Eglurodd Ceri Jones ein bod ni wedi cael disgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd wedi aros yn yr ysgol yn y Chweched Dosbarth ac mae'r Awdurdod Lleol a'r ysgolion sy'n cynnal y Dosbarthiadau yma wedi mabwysiadu dull hyblyg at ddiwallu anghenion disgyblion.

- **A fydd hyn yn helpu'r ysgol/yn helpu disgyblion eraill sy'n mynychu ein hysgol?**

Ymatebodd Mr Edwards – Bydd, yn bendant. Bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer sgysiau achlysurol, rhannu arferion da ar ddiwrnodau dysgu i'r staff, a chaiff arbenigedd ei rannu yng nghyd-destun ehangach yr ysgol.

Mewn perthynas â'r 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu y mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cymorth iddyn nhw, dywedodd Ceri Jones wrth y grŵp bod yr adborth yn hynod gadarnhaol o ran yr effaith ar ethos yr ysgol, y rhwydwaith cymorth a'r hyfforddiant y mae modd ei rannu. Mae'r Cydlynnydd ADY yn yr ysgol yn aml yn gweithio'n agos gydag athro'r Dosbarth Cynnal Dysgu ac yn rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr ysgol eraill. Mae yna fanteision amlwg.

- **Pe bai gwers 2 yn wers Mathemateg, a fyddai'r un peth yn digwydd yn y Dosbarth Cynnal Dysgu?**

Mae'n bosibl y bydd y disgyblion yn mynd i'r un dosbarth neu'n gwneud gwaith ymyriadau neu waith rhifedd/llythrennedd wedi'i deilwra i anghenion y disgyblion. Efallai na fydd angen cynnal y gwersi ar yr un pryd ond bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cysylltu â'r adran Mathemateg i sicrhau gwaith gwahaniaethol ac amserlen wahanol. Bydd modd i ddisgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu gymryd rhan mewn gwersi/gweithgareddau craidd.

Dywedodd Mr Edwards mai un o fanteision pandemig y Coronafeirws yw'r defnydd o gyfathrebu digidol a allai barhau i helpu'r disgyblion yn y dyfodol.

- **A fydd amser egwyl ac amser cinio yr un peth i'r disgyblion?**

Eglurodd Mr Edwards fod yna egwyl ginio wedi'i rhannu ar hyn o bryd ar gyfer yr ysgol isaf, yr ysgol ganol a'r ysgol hŷn. Byddai'n dibynnu ar yr unigolyn. Os yw'n gallu cael mynediad i'r un egwyl, yna bydd – ond bydden ni'n hyblyg ac yn synhwyrol ynghylch y mater, gan roi cynnig ar wahanol ddulliau o bosibl i weld beth sy'n gweithio orau.

Atebodd Ceri Jones lle mae'n bosibl i grwpiau ymuno bydden ni'n manteisio ar y cyfle yma gan y byddai rhannu profiadau gyda chyfoedion yn gadarnhaol. Serch hynny, does dim modd i rai disgyblion ymdopi â grwpiau mwy. Byddai'n seiliedig i raddau helaeth ar yr unigolyn, ond lle bo modd byddai'n cael ei annog.

- **Os yw disgyblion yn dod aton ni o ysgol wahanol a fyddai raid iddyn nhw fod mewn swigod gwahanol?**

Yn ôl Mr Edwards y gobaith yw fyddai dim angen cael swigod erbyn sefydlu'r Dosbarth arfaethedig. Unwaith y byddai'r disgyblion yn dod yn rhan o'r ysgol bydden nhw'n gwisgo ein gwisg ysgol ni ac felly yn rhan o gymuned yr ysgol.

Eglurodd Ceri Jones ymhellach na fyddai'r lleoliad yn lleoliad rhan amser. Byddai disgyblion yn mynychu'n llawn amser, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- **Beth fyddai'r trefniadau cludiant?**

Eglurodd Ceri Jones fod cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi'r Cyngor. Byddai disgyblion yn cael tacsï i mewn i'r ddarpariaeth o'u cartref i'r ysgol. Pe baen nhw'n lleol ac o fewn pellter cerdded byddai disgwyl iddyn nhw gerdded.

- **A oes gyda'r ysgol gynllun ar waith i gefnogi disgyblion presennol i addasu i'r Dosbarth newydd a helpu'r disgyblion newydd?**

Dywedodd Mr Edwards mai baint i'r ysgol fyddai cael y Dosbarth yma. Bydd yr ysgol yn onest ac yn agored gyda'r disgyblion. Nid 'dirgelwch' fydd e. Mae disgyblion wedi siarad â grwpiau o ddisgyblion eraill yn flaenorol i ddweud wrthyn nhw am eu hanghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r Pennaeth yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallai disgyblion hŷn ddarparu cefnogaeth a mentora i'r disgyblion newydd.

Eglurodd Ceri Jones fod ysgolion eraill gyda Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cyhoeddi hyn ar eu gwefannau a bod y ddarpariaeth yn cael ei gweld yn rhan o'r ysgol gyfan. Byddai cyfleoedd mentora gan gymheiriaid ac ystod o ffyrdd y gallech chi gefnogi – mentora lles. Cafodd Dosbarth Cynnal Dysgu Ysgol Gyfun Bryn Celynnog ei ddefnyddio'n enghraifft. Mae'r lleoliad yma'n darparu diwrnodau gwybodaeth sy'n gwella dealltwriaeth pawb. Po fwyaf y gallwch chi ei ddysgu, y mwyaf y gallwch chi gefnogi'r disgyblion. Bydd achlysur ymgynghori ar gyfer staff ac aeoldau o'r Corff Llywodraethu yn ddiweddarach heddiw, yn ogystal ag ymgynghoriad ar-lein. Mae'r Awdurdod Lleol am greu'r teimlad bod y cynnig yn cael ei wneud ar y cyd â'r ysgol. Os oes pryderon bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod dull ysgol gyfan a chymunedol o gefnogi'r disgyblion.

Aeth Mr Edwards ati eto i bwysleisio bod cynwysoldeb a chydweithio yn un o werthoedd craidd yr ysgol.

- **A fyddai'r disgyblion yn gallu ymuno â'r timau rygbi a pêl-droed?**

Bydden, wrth gwrs. Byddan nhw'n rhan o gymuned yr ysgol.

- **Pam dim ond 14 o ddisgyblion?**

Capasiti'r Dosbarth fyddai 14 o ddisgyblion gyda 3 aelod o staff. Serch hynny, yn dibynnu ar y gymysgedd o ddisgyblion, byddai modd i ni dderbyn disgyblion ychwanegol ac rydyn ni'n aml yn darparu cymorth ychwanegol os oes angen. Os does dim modd i ni ddarparu cymorth i ddisgyblion ychwanegol oherwydd y gymysgedd bresennol o ddisgyblion, mae'n bosibl y byddwn ni'n darparu darpariaeth ychwanegol yn eu hysgol brif ffrwd.

- **Mae gydag aelod o'r teulu chwaer ag anghenion meddygol a dysgu sylweddol. A fyddai'n cael mynychu'r Dosbarth Cynnal Dysgu?**

Mae gyda'r Awdurdod Lleol lwybr parhaus o ran darpariaeth ar gyfer unigolion ag ADY. Mae gyda ni leoliadau tymor byr, Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ac ysgolion arbennig sy'n cefnogi ystod o ddisgyblion. Fyddai'r Dosbarth yma ddim yn cefnogi anghenion meddygol/corfforol sylweddol.

Rhoddodd Mr Edwards enghraifft o ddisgybl sy'n dioddef ag anghenion ymddygiad aciwt na fyddai'n gallu cael cymorth mewn Dosbarth Cynnal Dysgu ond a allai gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol arall.

Sicrhaodd Ceri Jones y grŵp y byddai trafodaethau cynhwysfawr gyda staff, disgyblion a theuluoedd i sicrhau bod y lleoliad cywir yn cael ei ddarparu. Mae'r Awdurdod Lleol yn gallu symud disgyblion ar hyd llwybr parhaus y ddarpariaeth yn dibynnu ar eu hanghenion

Eglurodd Mr Edwards fod gydag Ysgol Arbennig Maesgwyn rwydwaith a bod yr ysgol ar hyn o bryd yn manteisio ar ei arbenigedd. Er enghraifft, mae ei staff wedi darparu hyfforddiant ar ddulliau sy'n seiliedig ar drawma ar ddiwrnod HMS.

- **Ym mha ffordd fydddech chi'n cefnogi'r teuluoedd?**

Byddai staff a charfanau'r Awdurdod Lleol yno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd, rhoi cymorth a chynghor, a rhannu gwybodaeth arbenigol am anghenion disgyblion, yn ogystal â bod yn gefn iddyn nhw mewn perthynas â materion emosiynol. Mae pob rhiant yn ymdopi'n wahanol. Mae gyda'r Awdurdod Lleol Swyddog Cyswllt Teuluoedd a Seicolegwyr Addysg a fydd yn gweithio'n agos gyda theuluoedd. Os bydd rhieni'n penderfynu cadw eu plentyn yn y brif ffrwd yna byddwn ni'n cefnogi'r penderfyniad hwnnw. Unwaith y bydd y disgybl yn cael ei leoli yn y Dosbarth Cynnal Dysgu, mae cyswllt rheolaidd gyda rhieni.

Crynodeb o ffurflenni'r ymgynghoriad ar-lein a ddaeth i law

Cafodd yr adroddiad yma ei lunio ar 14/02/22. Cwblhaodd 31 o ymatebwyr yr holiadur yma. Mae'r adroddiad yma wedi cael ei hidlo i ddangos atebion 'Pob Atebwr'. Mae'r siartiau canlynol wedi'u cyfyngu i'r 12 prif god. Mae rhestri wedi'u cyfyngu i'r 100 rhes mwyaf diweddar.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?

Ydw	(27)	87.1%
Nac ydw	(2)	6.45%
Ddim yn siŵr	(2)	6.45%

Nodwch y rhesymau dros eich dewis (atebion yn yr iaith wreiddiol):

Most definitely needed to support WM pupils.

This is very much needed. However, we should not forget that there are many Primary aged pupils also in need of this provision through the medium of Welsh.

Especially in the wake of the disruption caused by the pandemic, additional support for Welsh medium pupils with ALN is to be welcomed.

As a parent of a child requiring support this is very good as there needs to be more classes like this out there.

Even in Welsh schools there is a special needs provision needed!

My son attended Garth Olwg mainstream from 11-16 and struggled but would have benefited from an ALN class.

I think both my children would benefit greatly from this idea, my eldest is currently struggling with some aspects of the Welsh language, and it has had a knock on affect in her other subjects.

I believe more support should be given for children with ALN within the Welsh schools.

Mae angen yn y clwstwr am ddosbarth cynnal dysgu.

Angen cefnogaeth teg ar gyfer ADY trwy gyfrwng y Gymraeg Rydw i yn athrawes mewn Ysgol Gynradd Gymraeg ac yn gweld nifer o blant ADY yn symud i addysg Saesneg er mwyn cael y gefnogaeth cyn symud i'r Uwchradd Saesneg. Mae nifer o ddisgyblion ADY gyda ni a fyddai'n elwa o hyn wrth symud i Ysgol Garth Olwg ym mlwyddyn .

Er fy mod yn hapus iawn bod y Cyngor wedi gweld yr angen i sicrhau cydraddoldeb i blant ag ADY dwys yn y sector Gymraeg, dwi'n poeni nad oes digon o wybodaeth ynglyn a pha math o ADY fydd y dosbarth yn cefnogi. Mae dosbarthiadau ADY y Sir fel arfer wedi ei categoreiddio yn ol angen - e.e. dwys a chymhleth, iaith a lleferydd, angehnion emosiynol ac ymddygiad, Awtistiaeth - fel bod y dysgwyr yn medru cael mewnbwn ac arbenigedd penodol. Ie'r syniad yw bod plant o wahanol fathau o ADY i gyd yn cael eu cymysgu yn y dosbarth yma? Dydy hyn ddim yn hollol glir yn y wybodaeth.

Baswn i ddim yn cefnogi dosbarth hollol gymysg o anghenion a thros ystod oedran mor eang - a dydy hyn ddim yn dangos cydraddoldeb gyda'r sector Saesneg. Dwi yn hollol gefnogol o sefydlu dosbarth.

ADY ar y safle, ond ddim yn siwr yn ol y categoraiddio. Does dim gwybodaeth yn y pecyn chwaith yn nodi pam Cyfnod Allweddol 3/4 a dewiswyd yn hytrach na'r oedran Cynradd - efallai bod data yn dangos hyn ond nid yw hyn yn glir.

Dylai pawb cael y cyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, petai nhw'n alluog neu petai nhw'n cael anghenion dysgu ychwanegol ac angen ychydig mwy o Cymorth.

Nodwch y rhesymau dros eich dewis (atebion yn yr iaith wreiddiol):

My child had this 'informally' at Garth Olwg. Will be good for parents / children coming behind to have a formal arrangement and option to access special education in Welsh, and on a mainstream campus.

I'm a Special Needs Support Higher Level Teaching Assistant and I work in Special Needs Resource Base. I believe that majority of English and Welsh medium schools need to be supported and have the resources/ units/bases in their schools. Without covid-19, there was still a substantial percentage of children needing these ALN units, and now due to covid-19 the percentage of children needing these bases/units have increased tremendously. These units not only give the children who are able to access them, they give them the support and independents they need. Which they can not access in a mainstream class. The amount of children I've seen that's came from mainstream to a SRB and then able to gain the ability for them either to be back integrated into mainstream or been able to have diagnosis to be moved to special needs school. Welsh medium schools need these just as much as English medium schools.

There is no current base or support in RCT for Welsh medium education and new ALNET Act means the authority need to act and provide where possible. Increase of specialist teachers to the school.

Teaches mainstream children about celebrating difference.

I don't know what ALN means. We're not all up with your jargon.

Mae diffyg cydraddoldeb yn y system ar hyn o bryd o ran y ddarpariaeth ychwanegol sydd ar gael I ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr ADY mewn ysgolion Cymraeg yn wynebu dewis na ddylent orfod gwneud, megis 1) Ymdopi â darpariaeth o safon is, 2) Symud i addysg cyfrwng Saesneg.

Rwyf yn cytuno gyda'r cynnig ac o'r diwedd bydd darpariaeth yn y Gymraeg i ddisgyblion y Sir. Fodd bynnag, rwyf yn hynod o siomedig mai ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn unig mae'r ddarpariaeth.

Ble mae'r cydraddoldeb ar gyfer disgyblion oed cynradd? Ble mae'r ddarpariaeth arbenigol ar eu cyfer nhw?

Gyda'r Ddeddf ADY newydd - rhaid rhoi cydraddoldeb i'r ddwy iaith ac mae dyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu hynny.

Braf gweld bod yr awdurdod yn ystyried darpariaeth yn y Gymraeg, er ei fod wedi ei gyfyngu i dim on 14 o blant.

Nodwch unrhyw ddewisiadau amgen, neu sylwadau neu ystyriaethau eraill yr hoffech chi ni'u hystyried (atebion yn yr iaith wreiddiol).

I would be also very supportive of developing Primary phase WM classes too

Given Garth Olwg is a 3-19 school, provision for younger pupils must be a logical extension

The siting of the support in Garth Olwg is a positive proposal, building on the existing support provision and making the most of its central role in the community and new 3-19 status.

ALN class would be beneficial to children through the medium of Welsh from age 3 up. I have 4 children with additional needs and my oldest 2 who have no left education were failed within the mainstream system.

I would like the local dialect to be taught in Welsh medium schools. My children live in Pontypridd but have always been taught the Northern dialect as correct and the southern dialect as incorrect.

I have no alternative options, children should be able to have the access for a ALN which children have in a English medium school.

A stand alone unit that is not part of a mainstream school.

Will this increase workload for ALN staff at Garth Olwg? How will traffic be managed as pupils taxi'd in. Will Governing Body be responsible or LEA?

Pam dewiswyd Cyfnod Allweddol 3 a 4? Beth fydd categori yr ADY yn y dosbarth? Ydy 1 athrawes a 2 LSA yn ddigonol ar gyfer 14 plentyn ag anghenion dwys a chymhleth a/neu anghenion emosiynol ac ymddygiad dwys? Yn ol y wybodaeth yn y pecyn, gallech cael plant BI7 ADY mewn gyda plant BI1 ydy hyn wir yn bosib ac i'r gorau? Oes bosib cael 1 dosbarth CA3 ac 1 dosbarth CA4?

Nodwch unrhyw ddewisiadau amgen, neu sylwadau neu ystyriaethau eraill yr hoffech chi ni'u hystyried (atebion yn yr iaith wreiddiol).

Why does it have to be within a mainstream school? Surely a stand alone unit would be more beneficial to all.

Assessments with relevant professionals should be made more accessible to the school for their pupils. I am one of many that have had to go privately for a diagnosis that can and should be carried out by the school

I don't believe it's a sensible use of funds when such a minority of people in RCT speak Welsh.

Rather than setting up a dedicated department, one to one tutoring would be a better option.

Gweler fy sylwadau ar y dudalen flaenorol. Balch iawn bod yr awdurdod yn dechrau darparu trwy gyfrwng y Gymraeg ond mae'n destun pryder nad oes unrhyw uned/ddosbarth arbenigol ar gyfer plant oed cynradd. Rhaid ystyried cydraddoldeb yn y Gymraeg i ddisgyblion a chanddynt ADY - ,beth am y ddeddf? Hefyd - beth fydd arbenigedd yr uned? Ai ymddygiad? Ai awtistiaeth? Ai anawsterau meddygol?

1. Ble mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant oed cynradd? 2. Beth yn benodol fydd anawsterau'r plant? O brofiad, mae anghenion yn amrywio'n fawr felly pa anghenion y bydd y dosbarth cynnal dysgu'n canolbwyntio arnynt? 3. Os oes 44 dosbarth cynnal dysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal ag ysgolion arbennig ac unedau, sut gellir

cyfiawnhau dim ond lle ar gyfer 14 disgybl mewn 1 dosbarth a dim byd o gwbl ar gyfer plant cynradd?

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Sut byddai cynigion y Cyngor yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol? (atebion yn yr iaith wreiddiol):

1. Rhyw
2. Oedran
3. Ethnigrwydd
4. Anabledd
5. Rhywioldeb
6. Crefydd neu gred
7. Hunaniaeth rywedd
8. Statws perthynas
9. Beichiogrwydd
10. Dewis iaith

N/A

None

N/A

N/A

N/A

10. Preferred language. Undermine the Welsh language spoken at the school.

10. This will be detrimental to the use of the Welsh language within the school.

laith o ddewis. - Language of choice.

2. Oed - mae'r ddarpariaeth dim ond ar gyfer plant oed uwchradd 10. Iaith - er bod y ddarpariaeth yn y Gymraeg, mae angen cydraddoldeb ar blant yr ardal er mwyn cael mynediad i addysg arbenigol o 3-11 oed hefyd.

Dwi'n anabl felly hoffwn I weld hygyrchedd penodol? Digonedd o llefydd parcio, rampiau ac ati!

Iaith o ddewis ,rhaid rhoi dewis i pawb. Anabledd - gall plant gyda anabledd dysgu colli mas ar opportunities, os nad oes cyfle iddyn nhw dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd hyn yn ffafrio i lefel cydraddolbed o ran iaith dewisol. Ar hyn o bryd mae hyn yn anghytbwys.

O ran cynnig y Cyngor, a'r effaith y gallai ei chael, rhowch wybod i ni:

Os ydych chi o'r farn y gallen nhw effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i hybu (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd? Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol? (atebion yn yr iaith wreiddiol)

It would support the development of the Welsh language to all - currently it sometimes seems that WM education is not suitable for those with any form of learning difficulty causing pupils to become disaffected and families less than supported.

This provision for ALN through the Medium of Welsh is to be applauded and will certainly help promote the language. But all the Council's services for ALN should be available in both languages.

The opportunity here is to considerably improve Welsh language provision not only for learners with ALN but support those who also come from non-Welsh-speaking homes who perhaps have had limited support over the difficulties of the pandemic.

O ran cynnig y Cyngor, a'r effaith y gallai ei chael, rhowch wybod i ni:

Os ydych chi o'r farn y gallen nhw effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i hybu (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd? Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol? (atebion yn yr iaith wreiddiol)

This is a huge positive enabling those Welsh learners who require the additional support to receive it rather than ending up transferring to the English department. There needs to be more of these classes.

Parents can choose to teach their children Welsh even with additional needs

Due there being no ALN classes currently through the medium of Welsh this has resulted in a failing for many children. At the end of the day we live in Wales why are there no Welsh medium ALN classes???

Better understanding of the Welsh language, creating more opportunities to succeed in other subjects within the Welsh schools curriculum.

It's a positive move. My child has become a part of the local Welsh community through being.

included and supported to learn in Welsh language education, albeit adapted to meet his educational needs.

This promotes Welsh.

Thus will have a negative impact on the use of the Welsh language within the school.

Defnydd cadarnhaol i ddechrau darparu addysg ac arbenigedd ADY yn gyffelyb a'r ochr Saesneg. Yn meddwl na fydd plant rhagor yn gorfod gadael y sector Cymraeg er mwyn cael arbenigedd mewnbwn.

ADY

Mae angen sicrhau bod gwasanaethau eraill yn y cyngor yn galluogi pobl i ddefnyddio'r iaith o'u dewis. Mae'r Cyngor wedi gwneud hyn rhywfaint ond dylent barhau i aenlu at wasanaeth lawn ddwyieithog. Awgrymnir bod y Cyngor yn ystyried cefnogi busnesau lleol hefyd i ddefnyddio'r. Gymraeg lle bon'n bosib er mwyn cynyddu'r amllder o weld Cymraeg ysgrifenedig a chlywed Cymraeg achlysurol yn cael ei ddefnyddio tu hwnt i'r Cyngor ac ysgolion Dyma'r cam cyntaf yn y ddarpariaeth Gymraeg sy'n dda o beth ond sionedig iawn mai dyma'r unig ddarpariaeth yn y sir. Beth am ddisgyblion cynradd? Nid oes gan siaradwyr Cymraeg yr un cyfleoedd I gael addysg wedi'i theilwra os oes ganddynt anghenion penodol iawn. Mae angen tegwch ar bob un plentyn.

Braf gweld bod yr awdurdod yn dechrau ystyried dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ADY ond mae llawer o waith i'w wneud er mwyn cydymffurfio a'r ddeddf ALNET.

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gwarcheidwad disgybl yn yr ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr yr ysgol sy'n cael ei henwi ac ati) (atebion yn yr iaith wreiddiol).

RCT NEU branch Secretary

Governor at Ysgol Garth Olwg and Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

I am a parent at the school.

Parent of children in heol y celyn

staff ysgol clwstwr Garth Olwg

Parent of children in PSN

Athrawes ysgol Gynradd yn y clwstwr

Athro yn RCT

Welsh_Medium_Learning_Support_Class

Rhiant (ysgol Gynradd Castellau)

Parent. Child has moved to special school for 6th form, but has one day a week at Garth Olwg.

Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Athro

12 x Parents/carers of children at Ysgol Garth Olwg

Resident

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i wella'r ddarpariaeth Cymorth Dysgu cyfrwng Cymraeg yn y dosbarth

Introduction

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol a'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig yn debygol o gynnal neu wella safon y ddarpariaeth addysg yn Rhondda Cynon Taf oherwydd:

- Mae'n cynnig opsiwn pellach ar gyfer addysgu nifer bach o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes opsiwn o'r fath yn bodoli yn RhCT ar hyn o bryd.
- Mae'n helpu sicrhau bod RhCT yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) i ddarparu system anghenion dysgu ychwanegol dwyieithog.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir dros y cynnig ar sail y ffaith nad oes darpariaeth mewn Dosbarth Cymorth Dysgu i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, er bod 44 Dosbarth Cymorth Dysgu ar draws RhCT i ddysgwyr cyfrwng Saesneg. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r cynigiwr wedi nodi nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol o gymharu a nifer y dysgwyr cyfrwng Saesneg i roi cyd-destun i'w gynnig.

Mae'r cynigiwr wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig a'i amserlen arfaethedig ar gyfer gweithdrefnau statudol a gweithredu. Nid oes trefniadau interim gan mai'r cynnig yw agor Dosbarth Cymorth Dysgu i hyd at 14 o ddisgyblion cyfnod allweddol 3/4 yn yr ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg, Ysgol Garth Olwg, gan ddefnyddio cyfleusterau presennol yn yr ysgol honno o Fedi 2022 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n debygol o ddefnyddio'r Dosbarth

Cymorth Dysgu newydd gael eu haddysgu naill ai mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg prif ffrwd neu mewn Dosbarthiadau Cymorth Dysgu cyfrwng Saesneg rywle arall. Ni ddarperir y wybodaeth hon yn y cynnig.

Caiff y manteision a'r anfoneision disgwylidig o gymharu a'r sefyllfa sydd ohoni eu hamlinellu'n fyr ond yn glir. Er enghraifft, bydd mwy o gostau cludiant oherwydd gall fod angen cludo nifer bach o ddisgyblion a all fod yn cael addysg ar hyn o bryd yn eu hysgol ddalgylch i Ysgol Garth Olwg ger Pontypridd yn lle hynny.

Ystyriwyd ychydig ddewisiadau eraill addas: naill ai darparu mwy o gyllid i ysgolion prif ffrwd fodloni anghenion y disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol neu sefydlu'r Dosbarth Cymorth Dysgu newydd mewn lleoliad gwahanol. Mae'r opsiwn cyntaf yn debygol o arwain at ddarpariaeth dameidiog. Rhoddir tri rheswm pam y dewiswyd ysgol Garth Olwg ar gyfer y Dosbarth Cymorth Dysgu newydd: ei harfer gynhwysol, ei llwyddiant wrth addysg disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'i nifer lleoedd dros ben ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni ddarperir tystiolaeth i ategu'r ddau haeriad cyntaf, sy'n wendid yn y cynnig. Yn sicr, dylai fod y lle angenrheidiol yn Ysgol Garth Olwg gan fod lle yn yr ysgol 3-19 oed gymharol newydd hon i 1,434 o ddisgyblion (1,110 yn y cyfnod uwchradd a 324 yn y cyfnod cynradd) ac mae rhagamcanion yn awgrymu cyfanswm o 1,242 o ddisgyblion ar y mwyaf erbyn 2024/25, gan adael o leiaf 192 lle dros ben (er y bydd angen mwy o le ar leoedd yn y Dosbarth Cymorth Dysgu na lleoedd prif ffrwd). Nid oes sylw yn y cynnig am y posibilrwydd y bydd mwy o rieni am addysgu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg a ph'un a allai hyn effeithio ar nifer y lleoedd dros ben yn Ysgol Garth Olwg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae manteision y cynnig yn cynnwys yr effaith bosibl ar weddill yr ysgol o ganlyniad i gael arbenigedd ar anghenion dysgu ychwanegol ar y sane, ynghyd a'r gostyngiad bach yn nifer y lleoedd dros ben. Mae'r potensial i leihau gwaharddiadau yn yr awdurdod lleol yn cael ei enwi'n fantais hefyd. Fodd bynnag, mae dwy risg ynghlwm wrth y cynnig sydd heb eu hystyried. Yn gyntaf, mae cael un Dosbarth Cymorth Dysgu cyfrwng Cymraeg yn RhCT gyfan yn debygol o olygu y byddai'n rhaid i rai disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Cymorth Dysgu newydd orfod teithio pellter sylweddol i'r ysgol bob dydd. Mae'n bosibl y gallai rhai rhieni wrthod caniatáu i'w plant fynychu'r Dosbarth Cymorth Dysgu newydd os ydynt yn byw'n rhy bell i ffrwd. Yn ail, caiff budd cyflogi un athro a dau gynorthwydd addysgu i redeg y Dosbarth Cymorth Dysgu newydd ei grybwyll, ond nid effaith hyn ar y cymorth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg peripatetig presennol a ddarperir yn yr awdurdod lleol.

Yn amlwg, mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac mae'n ei helpu i gyflawni rhwymedigaethau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018).

Gallai costau ariannol y cynnig fod yn gliriach. Ni nodir costau y tu hwnt i'r cyfansymiau sy'n cael eu gwario yn RhCT ar y 44 Dosbarth Cymorth Dysgu, y 4 ysgol arbennig ar 2 uned cyfeirio disgyblion bresennol, ynghyd a'r cyllid ychwanegol a roddir i ysgolion prif ffrwd wella'u gallu i addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'n glir a ddaw'r cyllid i'r Dosbarth Cymorth Dysgu newydd o gyllidebau presennol, o rywle arall yn y gyllideb addysg neu o gynnydd i'r gyllideb addysg gyfan. Er ei bod hi'n wiry bydd union gost Dosbarth Cymorth Dysgu'n dibynnu ar nifer y disgyblion ynddo a'u hanghenion, mae'r cynnig yn nodi y bydd dau athro a dau gynorthwydd addysgu yn y Dosbarth Cymorth Dysgu ac, telly, mae'n rhaid bod amcangyfrif o gost ar gael a gallai'r cynnig fod wedi'i gynnwys a'i esbonio.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg yn briodol. Os gall disgyblion sy'n cael trafferth dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg prif ffrwd ar hyn o bryd, neu'n gorfod dysgu Saesneg mewn Dosbarth Cymorth Dysgu arall pan fyddai'n well ganddynt ddysgu yn Gymraeg, gael eu haddysgu yn hytrach mewn cyfleuster cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i addasu i'w hanghenion unigol, mae hyn yn hynod debygol o wella'u profiad dysgu eu hunain, ynghyd a chael effaith gadarnhaol ar eu hysgol bresennol. Mae'r cynnig yn datgan yn glir y manteision ychwanegolposibl i Ysgol Garth Olwg o gael arbenigedd anghenion dysgu ychwanegol ar y sane ac mae'n cyfeirio at Fframwaith Arolygu.

Estyn, sy'n amlygu'r effaith gadarnhaol y gall yr arbenigedd hwn ei chael ar wella ymarfer a gwella deilliannau i ddysgwyr ag ADY ar draws yr ysgol gyfan.

Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at adroddiadau arolygu Estyn gan na fu arolygiad ers sefydlu ysgol pob oed Ysgol Garth Olwg yn 2019. Fodd bynnag, gallai'r cynnig fod wedi cyfeirio at adroddiadau arolygu blaenorol ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd blaenorol ar y safle, sy'n darparu tystiolaeth ynghylch pam mae Ysgol Garth Olwg yn ysgol briodol i fod yn gartref i'r Dosbarth Cymorth Dysgu newydd.

Mae manteision tebygol clir i'r cynnig o ran cyflwyno'r cwricwlwm llawn i'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a fydd yn mynychu'r Dosbarth Cymorth Dysgu newydd. Dywed y cynnig y gallai fod ychydig o darfu cyfyngedig ar Ysgol Garth Olwg o ganlyniad i fod yn gartref i'r Dosbarth Cymorth Dysgu, ond bydd y manteision tebygol yn gorbwyso hynny.